

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD GORFFENAF 2021
5 Gorffennaf 2021, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Elin Jones, Dafydd Watts, Glyn Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Eleri Owen, Dion Roberts, Llio Griffiths

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Anffurfiol 7 Mehefin a 28 Mehefin 2021

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Cafwyd cytundeb ar drefnu cyfarfod cyhoeddus a danfon holiadur i'r trigolion lleol cyn y cyfarfod, gan y byddai hyn yn ffordd fwy effeithiol o gael barn trigolion lleol.

Mae ADRA a'r Hwylusydd Anghenion Tai Gwledig wedi cytuno y byddent yn fodlon mynychu cyfarfod o'r fath.

Trafodwyd cynnal y cyfarfod y tu allan ym maes parcio'r siop ar nos Lun, Mawrth neu Fercher tua diwedd mis Gorffennaf. Os bydd y tywydd yn troi, yna bydd yn rhaid ystyried cynnal cyfarfod y tu mewn yn y siop.

Bydd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn holi pryd y bydd y siop ar gael.

Trafodwyd yr angen i hysbysebu'r cyfarfod, e.e. poster yn y siop, ar y we, gweplyfr lleol Llanfrothen a Croesor.

Bydd angen hefyd ystyried hwylusydd a chyfieithydd, ac os yn cynnal y cyfarfod yn ffisegol, adnoddau trydan ar gyfer cyfieithu ar y pryd.

5.2 13 Garreg Frech

Mae'r Clerc wedi holi'r unigolyn sydd wedi danfon cwyn at Gyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb ganddo.

5.3 Y Ganolfan

Mae yna 3 bin brown efo sbwriel gardd y tu allan i'r Ganolfan. Mae'n debyg fod rhywun wedi bod yn gwaredu gwastraff ynddynt.

Mae yna hefyd fin gwyrdd efo sbwriel ynddo. Gellir rhoi hwn allan ar gyfer ei wagio gan Gyngor Gwynedd, ac yna ei gadw yn Y Ganolfan fel nad oes neb yn rhoi sbwriel ynddo.

Mae angen clirio'r hen ddarn metel sgrap sydd y tu cefn i'r Ganolfan, a bydd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn gofyn eto i'r dyn sgrap ei glirio.

Mae Gofod Gwag Gwynedd efo diddordeb i wneud defnydd o ofodau gwag yn y Sir, e.e. adeiladau gwag. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â nhw er mwyn gweld a fyddai ganddynt ddiddordeb i ystyried gwneud defnydd o'r Ganolfan. Disgwylir ymateb ganddynt.

5.4 Ynni Hydro Croesor

Mae'r Cynghorydd Dafydd Watts wedi llunio llythyr y medrir ei ddanfon at Ymddiriedolwyr Brondanw ar ran y Cyngor Cymuned fel ymateb i e-bost yr Ymddiriedolwyr dyddiedig 7 Mehefin 2021 am y buddiannau cymunedol fyddai ar gael.

Mae'r llythyr yn gofyn am eglurhad pellach ar amrywiol faterion ac yn awgrymu meini prawf ar gyfer y prosiectau fyddai'n dderbyniol.

Y Clerc i ddanfon y llythyr ymlaen at Ymddiriedolwyr Brondanw.

5.5 Llwybr Cerdded a Beicio Llanfrothen i Benrhyn

Mae Cyngor Tref Penrhyndeudraeth yn bwriadu trafod y mater yma yn eu cyfarfod ar 8 Gorffennaf..

6. Materion Ariannol

6.1

Cyflog Clerc Ebrill 2021 - £239.52

Cyflog Clerc Mai 2021 - £239.52

Cyflog Clerc Mehefin 2021 - £239.72

CThem Ebrill 2021 £60.00

CThem Mai 2021 £60.00

CThem Mehefin 2021 £59.80

Ad-daliad cyflog Clerc oriau ychwanegol £1236.30

CThem oriau ychwanegol £345.80

Yswiriant cenedlaethol £147.90

Cyfanswm £1730.00

6.2 Anfoneb Dunn & Ellis 121642 30 Ebrill 2021 £59.40

6.3 Anfoneb Michael C. Kerr 3 Mehefin 2021, agor 2 fedd ar gyfer llwch £80x2=£160

6.4 Siec Siop Y Garreg Llanfrothen wedi ei dychwelyd – gellir gwneud taliad pan fod y bancio rhyngwyd wedi ei sefydlu

6.5 Anfoneb Snowdonia Fire Portection – golau tân Y Ganolfan, £144.00

6.6 Anfoneb Cymru1.net 8408 1 Gorffennaf 2021, 1 Gorffennaf 2021 – 1 Gorffennaf 2022, £334.80

6.7 Cyfrif Banc HSBC - disgwylir i'r cyfrif gael ei sefydlu gan HSBC. Unwaith fydd hynny wedi digwydd, medrir trafod os dylai un cyfrif fod yn benodol ar gyfer mynwent Tan Lan.

7. Gohebiaeth

Llythyr Cyngor Tref Nefyn - creu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â pholisi iaith cynghorau cymuned yng Ngwynedd

Cytunwyd i ddanfon cynrychiolydd i bwyllgor fyddai'n cael ei drefnu yn y dyfodol i drafod y mater yma

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eleri Owen

Cymeradwyd absenoldeb y Cynghorydd Eleri Owen oherwydd salwch hir dymor.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Elin Jones

9.2 Tafarn Y Ring

Ni chafodd y Clerc ymateb gan gwmni Robinsons yn dilyn ysgrifennu atynt ar dri achlysur yn nodi fod biniau yn llawn ar y safle ac angen eu gwagio. Mynegwyd pryder y gallai biniau llawn fel hyn ddenu llygod. Nodwyd hefyd fod yna amrywiol faniau yn parcio ar y safle dros nos.

Mynegwyd siom nad oedd cwmni Robinsons yn ymateb i ohebiaeth gan y Clerc.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at brif swyddogion Robinsons yn nodi siomedigaeth am ddiffyg ymateb i ohebiaeth y Cyngor cymuned, ac os nad oedd cwmni Robinson yn cymryd pryderon y Cyngor cymuned o ddifrif, bod ystyriaeth yn cael ei roi i dynnu'r mater at sylw'r wasg.

9.3 Llwybrau troed

Cafwyd cwyn am y llwybr o Garreg i Ring i fyny am Garreg Frech. Gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd er mwyn gweld pa waith yr oeddynt yn ei wneud o ran torri'r llwybrau.

9.4 Biniau'r fynwent

Tynnwyd y biniau o'r fynwent rai wythnosau yn ôl. Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi bod yn gwirio'r sefyllfa ac ymddengys nad oes sbwriel yn cael ei adael bellach, gan nad oes biniau yno. Yn sicr mae yna lai o lanast nag yr oedd. Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa dros yr Haf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Medi 2021 drwy gyfrwng Microsoft Teams